

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 7ed Ionawr 2026

Presennol

Cynghorwyr – R Ashton (Cadeirydd), B Jones (Is-Cadeirydd), D Jones, I Edwards, F Cauley, G Davies, S Evans, E Davies, P Jones a G Mitchell (Powys)
2 aelod o'r cyhoedd

Ymddiheuriadau - E Lewis

Cynnigiodd y Cadeirydd, R Ashton croeso cynnes i bawb

Cyflwyniadau – Dim

Datganiadau diddordeb – Dim

Cytuno Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol ar 3ydd Rhagfyr 2025

Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cyfleusterau cyhoeddus - Cyflwynwyd manylion y biliau dros 6 mlynedd er mwyn dod o hyd i batrwm o ddefnydd a chostau i ceisio dealt y bill diweddaraf. Clerc i trafod y ffigyrau gyda Hafren Dyfrdwy. Cyflwynwyd drafft o poster i'w defnyddio o gwmpas yr adeilad er mwyn atal pobol rhag creu llanast
2. Nawdd Windfall – Mynegwyd rhwystredigaeth gan y Clerc fod y gwaith cyfreithlon i paratoi cytundeb ffurfiol efo'r tiffeddiannwr mor araf. Derbynwyd anfoneb gan cyfreithiwr y tiffeddiannwr sydd dipyn yn fwy na'r amcangyfrif yn y cais gwreiddiol. Mae Windfall wedi cytuno ar estyniad i'r nawdd a'r amserlen ond wrth ddatgan mae hyn fydd y cyfle olaf am hyblygrwydd ganddynt
3. Cyfrifion terfynol a'r awdit llawn – Mae Awdit Cymru wedi danfon adroddiad ar y cyfrifion gyda rhai amodau ac argymhellion. Mae'r Clerc wedi derbyn rhai esboniadau ychwanegol ac mae nhw nawr wedi ei gyhoeddi ar we-fan y Cyngor
4. Adroddiad bioamrywiaeth – Dangoswyd diweddariad ar tudalen 'Amdnom ni' ar we-fan y Cyngor yn cynnwys yr adroddiad hwn
5. Parcio ar y cae mawr a cyflenwad cerrig – I Edwards i edrych allan am cyfle i gasglu cerrig dros ben o safle waith Network Rail i'w ddefnyddio ar y cae. Mae'n bosib fydd angen mwy o waith ar y safle felly efallai ni fydd hyn yn bosib
6. Adroddiad gan Powys ynglyn a'r stafell snwcer – Mae'r gwaith ar y llawr newydd wedi ei cwblhau
7. Defnydd o iard y Cyngor – Fydd y cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal ar 29fed o Ionawr 2026 yn y Ganolfan Cymdeithasol
8. Cyflymder traffig wrth cyffordd Talerddig a golau stryd wrth troiad Llanerfyl ar yr A470 ar gyfer plant yn dychwelid o'r ysgol fin nôs – Dadansoddwyd canlyniadau'r teclynnau mesur cyflymder traffig yn y tri man; cyn ac ar ôl y cyffordd ac ar y ffordd fach. Nid ydy'r Asiantaeth Cefnffyrdd na Cyngor Sir Powys yn cytuno fod yna broblem gyda cyflymder. Clerc i gyhoeddi'r canlyniadau ar hysbysfwrdd Talerddig
9. Tail yn blocio hen ffordd Pant Glas i pont Bel – I Edwards i tynu lluniau. Clerc i ysgrifennu at adran llwybrau CSP

10. Arolygu trefniadau rhwng y Cyngor a Claerwen yn Bont – Clerc i ymweld a perchenog Claerwen
11. Ffens yn Bont ar tir Dŵr Cymru – Mae'r Clerc wedi derbyn cadarnhad gan Dŵr Cymru y fyddent yn trwsio'r ffens yn y blwyddyn ariannol nesaf
12. Adeilad yn Badgers Glade wedi newid ei ddefnydd – Mae'r adeilad a fuodd yn bloc toiledau rwan yn cael ei defnyddio fel tŷ. Clerc wedi adrodd i Powys
13. Hysbysfwrdd ym Mhennant - Mae'r costau wedi ei cynnwys yn y cyllideb ar gyfer y blwyddyn ariannol nesaf
14. Cyffordd ar yr A470 – Mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi gwneud arolwg o cyflymder traffig ac ymddygiad cerddwyr wrth cyffwrdd A470 a'r B4518 ac wedi dod i'r canlyniad bod angen croesfan rhywle agos. Clerc wedi gofyn os fydd hyn yn golygu gostyngiad yng nghyfyngiadau cyflymder ar yr A470 – dim diweddariad
15. 'Charging point' ym maes parcio'r pentref – Cafodd cyfleuster Carno ei osod gan Cyngor Sir Powys fel rhan o strategaeth cenedlaethol. Clerc i wneud ymholiadau gyda Powys ynglyn a chyflenwad tebyg yn Llanbrynmair
16. Ffordd Pen Graig ac arwydd 'Preifat' – Cyflwynwyd map o'r safle a chytynwyd ar ddrafft o lythyr i'r perchnogion
17. Diweddariad ar Deffibrilwyr - Mae I Edwards wedi gosod battris newydd i'r un yn Llan ac wedi cadarnhau fod yr offer yn ôl ar-lein. Disgwylwyd ymateb i cais am nawdd ar gyfer offer newydd
18. Arwyddion traffig ffarm i Bont, Llan a Talerddig – Clerc i cydlynu ar lleoliadau gyda E Davies
19. Paratoi biniau halen/grit – Diolch yn fawr i Brychan Anwyl am symud y bin halen yn Bont. Clerc i siarad gyda trigolion Glanclegyr am y biniau ar y stâd
20. Bin yn y cae chwarae – Cytynwyd gofyn i Andy i wagio'r bin y tro yma ac wedyn i monitro'r sefyllfa. Rhoddwyd arian yn y cyllideb ar gyfer mwy o sylw yn y blwyddyn i ddod os oes angen
21. Arwydd llwybr cyhoeddus i Newydd Fynyddog – Clerc wedi adrodd yr angen i Powys
22. Gwern y Bwlch – Cafodd giât ei adael ar agor ar ôl damwain ar y 26ain o Hydref – Derbynwyd ymateb gan yr heddlu – cyfrifoldeb pob gwasanaeth argyfwng (heddlu, ambiwlans, brigâd dân) ydyw i sicrhau ei fod yn gadael safle damwain yn saff. Nid ydy'r heddlu yn gwneud arolwg trwyadl o phob cam wrth adael
23. Arwydd 'Concealed Entrance' wrth troiad Pentremawr – Clerc i wneud ymholiadau
24. Mieri yn mynwent Eglwys Llan – Mae'r llwybrau yn cael eu dorri'n rheolaidd gyda cymorth ariannol gan y Fferm Wynt. Mae gwirfoddolwyr wrthi'n tacluso rhannau eraill o'r mynwent ond teuluoedd y meirw sydd yn gyfrifol am y beddau
25. Blwch rhoddion i'r toiledau – Clerc i wneud ymholiadau
26. Poster am cadw cŵn ar tennynau – Clerc i wneud ymholiadau efo NFU a drafftio poster
27. Datblygiadau yn Ngwern y Bwlch – Nid oes yna ddatblygiadau digon sylweddol i cymeryd camau swyddogol am y tro
28. Gosod y cyllideb a'r praesept – Cytynwyd fod y cyllideb yn adlewyrchu'r incwm a'r costau a disgwylir i 2026-27 a gosodwyd praesept o £16,000.00

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder ceir trwy Bont, Llan, Talerddig a Llanbrynmair	Ie	Prynwyd 'cut out' plastig o heddwas gyda camera cyflymder. B Jones i rhoi rhyw fath o atgyfnerthu ar ei gefn

Llethrau ffordd Talerddig yn llithrig i cerddwyr		G Mitchell i gwneud ymholiadau a'r Clerc i adrodd i Powys
Tyllau ar y ffordd i Gelli/Coed Pryfydau	le	06/01/26 - 9438-7228-3515-6117
Cylfert wrth tŷ Ystradfawr angen sylw a'r ffordd wrth Ystrad Fach yn dirywio	le	06/01/2026 - 1964-8587-7492-6152 06/01/2026 – To be inspected
Llifogydd ar y B4518 wrth Maesgwian		R Ashton i trafod y mater efo'r tîrfeddianwr
Draen yn Bont angen dadbloicio	le	01/12/25 - 0039-0701-4148-7566 02/12/25 – Logged for jetter
Pont Crugnant – 'railings' rhy fyr wrth ymyl dibyn serth i'r afon	le	07/01/26 - 7109-3536-3739-2023
Cyfyngiadau 7.5 tunell ar ffordd Pandy yn Bont	le	Mae G Mitchell wedi gwneud ymholiadau efo Powys i weld os gellir eu rhoi yn ôl neu o leia, arwydd yn dweud nad ydy'r ffordd yn addas i cerbydau mawr. Fydd cynrichiolydd o Powys yn ymweld a'r safle – Dim diweddariad

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
A470		Cornel wrth y Wynnstey – draenau angen clirio, gorlif yn rhewi ac yn troi'n arwyneb llithrig
Coed rhwng Station Garage a Pont Brics angen eu thorri	le	Clerc wedi adrodd i Network Rail 06/01/2026 – 260106-000402

Goleuadau stryd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Talerddig	le	Angen un wrth troiad i Llanerfyl
Goleuadau yn Nolfach yn gamweithredol		Clerc i casglu rhifoedd i'r rhai sydd a phroblemau
Golau ar ffordd Pandy yn gamweithredol		Clerc i casglu rhif y lamp ac adrodd i Powys

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

Cynllunio – 25/1761/FUL – Change of use of land to domestic curtilage, erection of an ancillary building and access track. Cyfeiriad y safle: Ty Capel, Pennant, Llanbrynmair, SY21 7BL. Wedi ei cylchredeg i Cynghorwyr ar ebost ar 04/12/25 – Dim gwrthwynebiad

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 01/01/26

Cyfrif Cyfredol £9136.43

Cyfrif Cadw	£3,008.79
Cyfanswm	£12,145.22
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£12,145.22

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
07/01/26	Cyflog y Clerc – Rhagfyr	£417.60	Cytynwyd
07/01/26	Treth ac NI ar cyflogau - Rhagfyr	£104.40	Cytynwyd
07/01/26	Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu – Rhagfyr	£120.00	Cytynwyd. Mae'r costau yma yn cael ei talu gan nawdd o Menter Iaith Maldwyn
07/01/26	Joanna Whiteway – Glanhau'r toiledau – Rhagfyr	£220.00	Cytynwyd
07/01/26	E.ON Next – Rhagfyr	£28.93	Cytynwyd
07/01/26	Office Express – Papur argraffu	£32.34	Cytynwyd
07/01/26	Border Janitorial	£102.53	Cytynwyd
07/01/26	Andrew Mears – Gwagio'r bin yn y cae chwarae	£15.00	Cytynwyd

- Rhaid danfon anfoneb i Powys am nawdd tuag at costau'r toiledau ym mis Ionawr 2026

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- B Jones – Sietyn yn Llan
- B Jones – Dŵr rhwng ffarm Wynnstay a'r pyb
- S Evans – Halen ar ffordd Hafod y Foel
- F Cauley – Cyflwr ffordd Bryneinty

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol canlynol ar Nos Fercher, 4ydd mis Chwefror 2026.

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair